



Gwastraff

Papur Testun 5 – Crynodeb

Cyflwyniad

Dylai'r system gynllunio ganiatáu dulliau cynaliadwy o reoli gwastraff a hwyluso cyfleusterau priodol i atal/ailddefnyddio, neu baratoi i ailddefnyddio, ailgylchu, adfer a, lle bo angen, gwaredu gwastraff yn ddiogel.

Mae cyfleusterau rheoli gwastraff yn elfen bwysig o'r economi ac mae'n creu cyfleoedd gwaith yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol.

Cyd-destun

Awdurdod trefol yw Sir y Fflint a chanddo safleoedd cyflogaeth strategol sydd mewn lle da i wasanaethu marchnadoedd lleol a marchnadoedd ehangach Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr. Ar hyn o bryd mae gan Sir y Fflint seilwaith rheoli gwastraff amrywiol ar hyd a lled y Sir gan gynnwys cyfleusterau a gaiff eu gweithredu gan, neu ar ran, y Cyngor, a chyfleusterau a gaiff eu gweithredu'n fasnachol.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn Awdurdod sy'n Casglu a Gwaredu Gwastraff ac, felly, mae ganddo ran bwysig yn y broses o reoli gwastraff trefol. Fel rhan o'i ddyletswydd i reoli gwastraff trefol, mae Sir y Fflint wedi sefydlu partneriaethau ag Awdurdodau eraill y Gogledd i gaffael dulliau o reoli gwastraff bwyd a gwastraff gweddillol trefol a allai arwain at oblygiadau defnyddio tir i Sir y Fflint.

Mae deiliant gwastraff wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf wrth i bolisiau cenedlaethol a pholisiau'r Undeb Ewropeaidd newid i geisio lleihau'r gwastraff a gynhyrchir ac i geisio codi'r gwaith o reoli gwastraff yn uwch yn

yr hierarchaeth gwastraff, gan ganolbwyntio ar leihau, ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer gwastraff yn hytrach na dibynnu cymaint ar gael gwared arno.

Mae gan Sir y Fflint nifer fawr o safleoedd tirlenwi caeedig. Mae peryglon ynghlwm wrth ddatblygu ar y safleoedd hyn oherwydd y nwyon y gellir eu rhyddhau, y trwytholchion a phroblemau'n ymwneud â sefydlogrwydd.

Rôl y Cynllun

Un o brif amcanion y cynllun fydd sicrhau bod darpariaeth briodol ar waith ar gyfer rheoli gwastraff sy'n cyd-fynd ag agweddau eraill ar y Cynllun ac sy'n helpu i godi'r gwaith o reoli gwastraff yn uwch yn yr hierarchaeth gwastraff, yn unol â'r polisi cenedlaethol.

Bydd angen i'r Cynllun sicrhau bod anghenion rheoli gwastraff yn cael eu hystyried ar bob lefel pan fo angen, a gall hyn gynnwys anghenion safleoedd penodol, anghenion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd angen cydnabod ansicrwydd o ran trwytholchion gwastraff a chynnwys mecanweithiau sy'n caniatáu i'r Cynllun ymateb i amgylchiadau wrth iddynt newid.

Gall y Cynllun helpu i leihau'r gwastraff a gynhyrchir a hybu dulliau o ailgylchu gwastraff drwy waith cynllunio priodol ym mhob cam o'r broses ddatblygu gan gynnwys adeiladu, gweithredu ac, weithiau, datgomisiynu datblygiad.

Mae'n anochel y bydd y testun hwn yn gorgyffwrdd â thestunau eraill o fewn y

Cynllun fel yr economi a gwaith, mwynau ac ynni adnewyddadwy. Bydd datblygu cynaliadwy yn ganolog i'r rhain i gyd.

Cynlluniau a Strategaethau Allweddol

- Cyfarwyddeb y Fframwaith Gwastraff 2008/98/EC
- Cyfarwyddeb Tirlenwi 99/31/EC
- Y Strategaeth Wastraff Genedlaethol Tuag at Ddyfodol Diwastraff (2010)
- Cynllun Casglu, Seilwaith a'r Sector Masnachau (Gorffennaf 2012)
- Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 6, Chwefror 2014) (Llywodraeth Cymru)
- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21 Gwastraff (Llywodraeth Cymru Chwefror 2014)
- Strategaeth Rheoli Gwastraff Sir y Fflint 2009-2025 (Tachwedd 2009)

Materion i'r Cynllun ymdrin â nhw

- Helpu i roi rhwydwaith o osodiadau gwaredu gwastraff ar waith a gosodiadau i adfer gwastraff trefol cymysg, gan ystyried egwyddorion hunangynhaliath a lleoliadau.
- Sicrhau bod unrhyw anghenion gofodol yn Sir y Fflint yn cael eu diwallu wrth roi rhaglenni caffael awdurdodau lleol ar waith.
- Sicrhau bod anghenion defnyddio tir i reoli gwastraff trefol yn cael eu diwallu.
- Dynodi'r safleoedd cyflogaeth hynny y gellid gosod cyfleusterau rheoli gwastraff arnynt.
- Sicrhau bod gofynion defnyddio tir at ddibenion gwastraff na ellir ei leoli ar safleoedd cyflogaeth yn cael eu bodloni;
- Sicrhau bod anghenion penodol safleoedd datblygu nad ydynt yn ymwneud â gwastraff yn cael eu diwallu drwy sicrhau bod digon o le a chyfleusterau i ailgylchu / compostio.
- Lleihau gwastraff drwy ddylunio'n ofalus.
- Sicrhau bod polisiâu sy'n seiliedig ar feini prawf yn cael eu cynnwys i ymdrin â safleoedd heb eu dyrannu a helpu i ymateb

i'r galw ac i newidiadau annisgwyl;

- Esbonio cynlluniau dargyfeirio ar ffermydd o safbwynt gweithgareddau rheoli gwastraff;
- Lleihau gwrthdaro rhwng cynlluniau defnyddio gwastraff a datblygiadau sensitif.
- Nodi unrhyw gyfleoedd i gydleoli cyfleusterau wrth ddatblygu rhwydweithiau gwres.
- Sicrhau bod cyn lleied o risgiau â phosibl ynghlwm wrth hen safleoedd tirlenwi, a'r safleoedd presennol, drwy sicrhau nad yw datblygiadau sensitif yn mynd rhagddynt gerllaw safleoedd anaddas.

Polisiâu / cynigion posibl ar gyfer Defnyddio Tir

Mae polisiâu gwastraff y Cynllun Datblygu Unedol yn cynnwys chwe pholisi a chynnig o dan y term 'gwastraff'. Mae rhai o'r polisiâu hyn cynnwys meini prawf sydd naill ai wedi'u cynnwys mewn polisiâu a chanllawiau cenedlaethol neu sy'n gymwys i wahanol ddulliau o ddefnyddio tir, nid dim ond gwastraff yn benodol.

Yn dilyn asesiad o bolisiâu'r CDU cynigir y dylid cyflwyno'r polisiâu a'r cynigion a ganlyn:

- Dyrannu safleoedd unigol ar gyfer cynigion gwastraff lle bo angen a dynodi'r 'Prif Ardaloedd Cyflogaeth' lle bydd yn gyffredinol dderbyniol ymgymryd â gweithgareddau rheoli gwastraff, gan gynnwys gweithgareddau aildefnyddio cysylltiedig â defnyddio tir a ddyrennir at ddibenion manwerthu.
- Nodi ardaloedd a/neu leoliadau lle mae cyfleoedd i gydleoli cyfleusterau cynhyrchu ynni a'r rhai sy'n defnyddio llawer o ynni neu gyfleoedd i greu rhwydweithiau gwres.
- Rhoi canllawiau ar leoliad datblygiadau gwastraff y tu allan i'r dyraniadau a'r Prif Ardaloedd Cyflogaeth, h.y. y tu allan i ffiniau datblygu a/neu safleoedd tir llwyd.

- Darparu canllawiau ar gynigion ffermwyr i ddargyfeirio ar raddfa fechan.
- Ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau **nad** ydynt yn ymwneud â gwastraff greu cryn lleied o wastraff â phosibl a darparu ar gyfer gwastraff ym mhob cam o'r datblygiad.
- Nodi clustogfeydd o amgylch safleoedd tirlenwi a mathau eraill o gyfleusterau lle bo angen, a rhagdybir na chaniateir datblygiadau sensitif o fewn y rhain.